OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

### RHAN 4

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

### PENNOD 2

### CYMHWYSTRA

*ADRAN 4*

*Astudio blaenorol*

**Myfyrwyr rhan-amser – cyfyngiadau ar gymorth i raddedigion**

**25.**—(1) Os yw myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs rhan-amser wedi cael gradd gyntaf o sefydliad yn y Deyrnas Unedig ("person graddedig"), nid yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio grant myfyriwr anabl oni bai bod y myfyriwr yn dod o fewn un o'r Achosion a nodir ym mharagraff (2).

(2) Yr Achosion yw—

*Achos 1*
O ran y radd gyntaf—

(a) nid gradd anrhydedd ydoedd; a

(b) fe'i dyfarnwyd i'r person graddedig ar ôl iddo gwblhau'r modiwlau, yr arholiadau neu'r mathau eraill o asesiad a oedd yn ofynnol ar gyfer y radd gyntaf honno,

ac mae'r person graddedig yn ymgymryd â'r cwrs presennol er mwyn cael gradd anrhydedd ar ôl cwblhau'r modiwlau, yr arholiadau neu'r mathau eraill o asesiad sy'n ofynnol (pa un a yw'r person graddedig yn parhau i wneud y cwrs yn yr un sefydliad a ddyfarnodd y radd gyntaf iddo ai peidio).

*Achos 2*
Mae'r cwrs presennol yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon nad yw'n para'n hwy na phedair blynedd ac nid yw'r person graddedig yn athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

*Achos 3*
Mae'r cwrs presennol yn arwain at radd anrhydedd a naill ai'n—

(a) cwrs sy'n ymwneud ag astudio hanes a gramadeg y Gymraeg a'r defnydd ohoni; neu'n

(b) cwrs sydd wedi ei restru yn y System Cyd-godio Pynciau Academaidd yn un o'r meysydd pwnc a ganlyn—

(i) peirianneg;

(ii) technoleg;

(iii) cyfrifiadureg;

(iv) pynciau perthynol i feddygaeth;

(v) y gwyddorau biolegol;

(vi) milfeddygaeth, amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig;

(vii) y gwyddorau ffisegol;

(viii) y gwyddorau mathemategol.

*Achos 4*
Mae rheoliad 26 yn gymwys.

(3) Yn Achos 3, ystyr "y System Cyd-godio Pynciau Academaidd" yw fersiwn 3 o'r System Cyd-godio Pynciau Academaidd a gynhelir gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch(**1**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 25 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) gweler https://www.hesa.ac.uk/support/documentation/jacs

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 12/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.